# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ionawr 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth

(13.30 - 14.30) (I ddilyn)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Ceri Planchant, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Emyr Harries, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg, Busnes a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 1 – Papur Briffio [Saesneg yn unig]

**Egwyl**

(14.30 - 14.35)

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35 - 14.40) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 2 – Adroddiad drafft

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.1 SL(6)438 – Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.40 - 14.45)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**4.1 SL(6)437 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 2 - 4)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 3 – Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)439 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 5 - 6)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 4 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(14.45 - 14.50)

**5.1 SL(6)435 – Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalennau 7 - 10)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 5 – Adroddiad drafft

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(14.50 – 14.55)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**6.1 SL(6)425 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 11 – 15)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 6 – Adroddiad

LJC(6)-03-24 – Papur 7 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 7 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(14.55 – 15.00)

**7.1 SL(6)424 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru**

(Tudalennau 16 – 20)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 8 – Adroddiad

LJC(6)-03-24 – Papur 9 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(15.00 – 15.05)

**8.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalennau 21 – 22)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 10 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 12 Ionawr 2024

**8.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth**

(Tudalen 23)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 11 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 15 Ionawr 2024

**8.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru**

(Tudalen 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 12 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 17 Ionawr 2024

## 9 Papurau i'w nodi

(15.05 – 15.10)

**9.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2022-23**

(Tudalennau 25 – 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 – Papur 13 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Ionawr 2024

LJC(6)-03-24 – Papur 14 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 15 Rhagfyr 2023

**9.2 Datganiad ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru: Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Adroddiad Terfynol**

(Tudalen 28)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 - Papur 15 - Datganiad ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru, 18 Ionawr 2024

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.10)

## 11 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(15.10 - 15.25)

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol: Adroddiad drafft

(15.25 - 15.40) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 - Papur 16 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 13 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Adroddiad drafft

(15.40 -15.55) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-03-24 - Papur 17 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 22 Ionawr 2024

## SL(6)438 – Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 (“Gorchymyn 2017”). Mae Gorchymyn 2017 yn darparu bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol at ddiben Rhan 1 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer ychwanegu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn') at y rhestr o gynhyrchwyr ystadegau swyddogol yng Nghymru. Bydd y Comisiwn, a sefydlwyd fel corff corfforaethol gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn gyfrifol am strategaeth, cyllid a goruchwylio’r sectorau a ganlyn yng Nghymru:

- addysg bellach, gan gynnwys colegau a dosbarthiadau chwech ysgolion;
- addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi;
- addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned; a
- phrentisiaethau.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Ystadegau a’r Gwasanaeth Cofrestru 2007

**Fe’u gwnaed ar:** Heb ei nodi

**Fe’u gosodwyd ar:** Heb ei nodi

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2024

# SL(6)437 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("y Prif Reoliadau"). Trafododd y Pwyllgor y Prif Reoliadau yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2023. Gwnaed y Rheoliadau i gywiro gwallau o natur dechnegol, neu sy'n gysylltiedig â chonfensiwn drafftio, a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Prif Reoliadau.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd yr wyth pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Mae rheoliad 4(a) yn mewnosod diffiniad o "person awdurdodedig" yn y Prif Reoliadau. Mae testun Saesneg y diffiniad yn croesgyfeirio at bobl yn rhinwedd rheoliad **62(a) i (d)** o'r Rheoliadau Fferyllol, ond mae'r testun Cymraeg yn croesgyfeirio at bobl yn rhinwedd rheoliad **62(a) i (c)** o'r Rheoliadau Fferyllol. Nid yw'n glir pa fersiwn sy'n gywir, sy'n golygu bod y diffiniad o "person awdurdodedig" yn aneglur.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 4(a) yn mewnosod diffiniad o "Cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal" yn y Prif Reoliadau. Mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at "erthygl 5(1) o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 (cofrestru)". Dylai'r gair rhwng cromfachau ddarllen "sefydlu a chynnal cofrestr" gan mai dyma deitl erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001. "Cofrestru" yw teitl erthygl 9.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 4(m)(i) yn diwygio'r diffiniad o "anghymhwysiad cenedlaethol" yn y Prif Reoliadau drwy roi'r gair "adran" yn lle "adrannau". Nid oes angen hyn gan fod geiriad y diffiniad yn dal i gyfeirio at adrannau lluosog hyd yn oed fel y'u diwygiwyd.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 16(b)(viii) yn datgan y dylid mewnosod y cyfeiriad "(p.14)" ar ôl "Deddf Nawdd Cymdeithasol 1998" yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau. Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1998 yn ymddangos ddwywaith yn Atodlen 1, felly dylai rheoliad 16(b)(viii) bennu a ddylid mewnosod y cyfeiriad yn yr achlysur cyntaf neu ym mhob achlysur y mae'n digwydd.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 16(b)(xii) yn mewnosod p. 22 fel y cyfeiriad ar gyfer Deddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985. Y cyfeiriad cywir yw p. 17. Yn yr un modd, mae rheoliad 16(b)(xv) yn mewnosod p. 28 fel y cyfeiriad ar gyfer Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Y cyfeiriad cywir yw p. 14.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 18(r) yn rhoi'r gair "is-baragraff" yn lle "baragraff" ym mharagraff 66(1) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau. Fodd bynnag, mae'r gair "paragraph" yn ymddangos dair gwaith ym mharagraff 66(1) yn y fersiwn Saesneg ac nid yw'r diwygiad yn pennu ei fod ond yn gymwys i'r lle cyntaf y mae "paragraph" yn digwydd. Er bod y ddau ddefnydd arall o'r gair mewn is-baragraffau, maent yn dal i fod yn rhan o baragraff 66(1) ac felly dylid bod wedi'i gwneud yn glir bod y diwygiad ond yn gymwys i'r lle cyntaf y mae "paragraph" yn ymddangos. Byddai hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd yn rheoliad 18(ff).

7. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Tynnodd pwynt adrodd 40 yn ein hadroddiad ar y Prif Reoliadau sylw at y ffaith bod Panel Addasrwydd i Ymarfer bellach yn cael ei alw'n Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Mae rheoliad 18(nn)(ii)(cc) yn diwygio paragraff 117(6)(a) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau i adlewyrchu'r newid hwn. Fodd bynnag, mae'r term "Addasrwydd i Ymarfer" hefyd yn ymddangos ym mharagraff 117(6)(b) o'r Prif Reoliadau ac nid yw'r Rheoliadau yn diwygio'r geiriad hwn.

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 18(oo)(iii)(aa) yn mewnosod geiriad ym mharagraff 119(3)(v) o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau. Fel y'i diwygir, byddai geiriad paragraff 119(3)(v) yn darllen "mewn achos pan fo'r

contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth neu gyda chwmni *a phan fo un neu ragor o'r unigolion hynny wedi gwrthod cydymffurfio â chais gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gael ei archwilio'n feddygol*, bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod y contractwr yn cymryd camau digonol i ddelio â'r mater" (dangosir y geiriau ychwanegol mewn testun italig). Nid yw'n glir a fwriedir i'r geiriad ychwanegol ymwneud â'r bartneriaeth, y cwmni neu'r ddau. Os mai dim ond â'r bartneriaeth y bwriedir iddo ymwneud yna dylai'r geiriad newydd fod wedi'i ychwanegu ar ôl y gair "partneriaeth" yn hytrach na "chwmni". Os bwriedir iddo ymwneud â'r cwmni neu'r bartneriaeth a'r cwmni, yna byddai angen egluro pwy yn y cwmni fyddai'n gyfystyr â'r "unigolion".

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn ei hymateb i'n hadroddiad ar y Prif Reoliadau, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gwneud diwygiadau i gywiro'r materion a godwyd ym mhwyntiau 8 a 54 yn ein hadroddiad. Roedd pwynt 8 yn ymwneud â chyfeiriad at ddarpariaeth a ddiddymwyd yn y diffiniad o "optometrydd-ragnodydd annibynnol" yn y Prif Reoliadau a nododd pwynt 54 gyfeiriad anghywir at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn y Nodyn Esboniadol i'r Prif Reoliadau. Nid yw'r Rheoliadau yn gwneud y diwygiadau hyn.

**10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *Ni chynhadliwyd unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau diwygio gan nad yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yn newid y polisi nac yn cael unrhyw effaith arno nac ar sut y caiff ei gymhwyso.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd ac eithrio'r un olaf.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Ionawr 2024**

# SL(6)439 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn yr ataliad dros dro ar y gofyniad i baratoadau cig fod wedi eu rhewi'n ddwfn pan fônt yn cael eu mewnforio i Gymru o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir (i dymheredd -18°C), a hynny hyd at 29 Ebrill 2024.

Mae "paratoadau cig" yn fwydydd wedi'u gwneud o gig ffres heb newid strwythur y ffibr cyhyrau sy'n nodweddu cig ffres. Mae'n bosibl bod bwydydd eraill, halen a phupur ac ychwanegion wedi'u hychwanegu atynt.

Mae'r ataliad dros dro eisoes wedi'i estyn sawl gwaith, ac yn awr mae'n cael ei estyn eto fel rhan o ddull o ymdrin â rheolaethau ar y ffin sy'n esblygu ar gyfer Prydain Fawr gyfan. Heb yr estyniad pellach hwn, byddai'n anghyfreithlon mewnforio paratoadau cig oer ar ôl 31 Ionawr 2024.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn nodi:

> *Mae'r ataliad dros dro ar y gwaharddiad yn fesur cymesur, gan fod y risg i fioddiogelwch y mae'r nwyddau hyn o'r gwledydd hynny'n ei pheri yn isel, wrth i'r polisi ar gyfer y tymor hir gael ei ddatblygu. Mae'r nwyddau hyn yn cael eu mewnforio ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw bryderon i iechyd y cyhoedd mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn, gan fod y DU a'r UE yn masnachu'r nwyddau hyn yn rhydd o fewn Marchnad Sengl yr UE.*

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y cyd-destun a ganlyn i'r Rheoliadau hyn, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

> *Ers diwedd y cyfnod gweithredu ar ôl i'r DU adael yr UE, mae busnesau ac awdurdodau cymwys wedi gorfod bodloni gofynion helaeth gan yr UE a'r DU pan fyddant yn symud nwyddau o dan y berthynas fasnachu newydd â'r UE. Mae llawer o fusnesau ac awdurdodau cymwys yn wynebu heriau a diffyg adnoddau wrth baratoi ar gyfer newidiadau o'r fath o fewn cyfnod byr, wrth ymdrin â'r ymateb i bandemig COVID-19.*
>
> *Heb yr offeryn hwn, byddai ceisio cydymffurfio â'r gofyniad i rewi'n ddwfn, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 31 Ionawr 2024, yn creu cryn berygl o fewn y sector, a tharfu ar y gadwyn cyflenwi bwyd i Brydain Fawr.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**9 Ionawr 2024**

# SL(6)435 – Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cefndir a Diben

Deddfwyd Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") i nodi'r wybodaeth benodol sydd i'w chynnwys yn adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a phenawdau yr oedd yr wybodaeth ofynnol i'w chynnwys odanynt.

Mae'r Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Cod Rhan 8") a ddyroddwyd o dan Ran 8, adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn nodi'r pŵer i ddyroddi codau. Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi'u cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau sydd wedi'u cynnwys ynddo.

Caniateir diwygio'r Cod Rhan 8 sy'n rhoi'r cyfle i ddyroddi canllawiau newydd i awdurdodau lleol i'w helpu i lunio eu hadroddiadau blynyddol gan eu cysoni â'r adroddiad hunanasesu corfforaethol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol) 2023 yn diwygio Rheoliadau 2017 i ddiweddaru'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn adroddiadau blynyddol a phenawdau y mae'r wybodaeth ofynnol i'w darparu odanynt. Bydd hyn yn cyd-fynd â gofynion y Cod Rhan 8 diwygiedig.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod hwn.

1. Ar ddechrau'r Cod, mae datganiad yn nodi bod y Cod hwn yn dirymu'r Cod Rhan 8 a ddyroddwyd yn ôl y testun Saesneg "in March 2016". Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae'n nodi bod y Cod blaenorol wedi'i ddyroddi "ym **16** mis Mawrth 2016" sy'n cynnwys "16" ychwanegol ond nid yw'n gwneud synnwyr gramadegol. Felly, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg oherwydd yr "16" ychwanegol yn y cyfieithiad.

2. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn datgan bod y Cod a gyhoeddwyd wedi'i gyhoeddi gyntaf a'i ddiweddaru ddiwethaf ar 24 Mai 2019, felly mae rhywfaint o ddryswch wrth nodi fersiwn y Cod i'w ddirymu. Yn hyn o beth, y confensiwn yw cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol gan gynnwys y dyddiad cyhoeddi, y fersiwn a'r ISBN a fydd yn helpu i nodi cyhoeddiadau megis Cod.

3. Yn y rhaglith, ym mharagraff 1, diffinnir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel "y Ddeddf". Fodd bynnag, ym mharagraffau 2 a 3 o'r Cod, a phennawd Pennod 3 o'r Cod, nid yw'r diffiniad bob amser yn cael ei ddefnyddio ond caiff teitl y Ddeddf honno ei ailadrodd yn llawn.

4. Yn y testun Saesneg, mae teitl y Ddeddf yn anghywir ym mharagraff 1 gan y dylai fod cysylltnod yn sillafiad "Wellbeing". Yn nhestunau'r ddwy iaith, nodir teitl y Ddeddf yn anghywir hefyd yn y frawddeg gyntaf ym mharagraff 2 gan fod y flwyddyn "2014" ar goll (er y dylid defnyddio'r diffiniad ym mharagraff 2 ym mhob lle).

5. Ym mharagraff 4, ceir cyfeiriad at "adran 147" ond nid yw'n nodi lle y ceir y ddarpariaeth honno drwy gyfeirio yn unig at y gair 'Deddf' wedyn. Mewn lleoedd eraill, mae'r cyfeiriadau yn cynnwys y geiriau hynny neu deitl llawn Deddf yn y paragraff wrth nodi'r ddeddf benodol lle y ceir adran, e.e., "adran 8 **y Ddeddf**" ym mharagraff 15, ac "adran 27 **Deddf Plant 2004**" ym mharagraff 49.

6. Ym mharagraff 9, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "a code of practice **issued** under section 145 of the Act". Yn y testun Cymraeg, cyfieithwyd "issued" fel "a gyflwynir" sy'n awgrymu ystyr "presented" neu "submitted" yn hytrach nag "issued". Yn flaenorol, yn y datganiad dirymu ar ddechrau'r Cod ac ym mharagraffau 1 a 6, defnyddiwyd y gair "gyhoeddwyd" neu amrywiad gramadegol "Cyhoeddir" i gyfieithu "issued" yn yr un cyd-destun sy'n cyfleu ystyr "issue" (fel y byddai "dyroddir" a ddefnyddir yn y Ddeddf). Felly, mae "a gyflwynir" fel y cyfieithwyd "issued" ym mharagraff 9 hefyd yn anghyson â'r hyn a geir yn y paragraffau cynharach hynny yn nhestun Cymraeg y Cod neu a geir yn y Ddeddf. Mae'r un broblem yn digwydd yn ddiweddarach ym mharagraffau 15, 41, 43, 52 a 82 o'r Cod mewn cyd-destunau tebyg.

7. Ym mharagraff 15 ac mewn lleoedd eraill yn y Cod, yn y testun Cymraeg, mae "role" wedi'i gyfieithu fel "swyddogaeth" wrth gyfeirio at "the role of the director of social

services". Fodd bynnag, mae "role" wedi'i gyfieithu'n flaenorol fel "rôl" yn nheitl y Cod hwn ac yn y Cod blaenorol ynghyd â'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig cysylltiedig ar gyfer y Cod hwnnw – OS 2016/414 (Cy. 132). Felly, mae'r dewis gair yn anghyson â'r hyn a geir yn nhestun Cymraeg teitlau'r Cod presennol a'r Codau blaenorol. Mae'n wir y gall "swyddogaeth" gyfleu ystyr "role" fel y nodir yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, ond fe'i defnyddir hefyd i gyfieithu "function(s)" yn nhestun Cymraeg y Cod. O ganlyniad, mae'n golygu ei bod yn fwy anodd gwahaniaethu rhwng "role" a "function" yn nhestun Cymraeg y Cod. O ganlyniad, mae'n ymddangos y byddai'n well defnyddio "rôl" i gyfieithu "role" yn y cyd-destun hwn yn y Cod.

8. Ym mharagraff 45(d), mae'r testun Saesneg yn nodi "experiencing abuse **<u>of</u>** neglect" ond yn y testun Cymraeg mae wedi'i gyfieithu i olygu "experiencing abuse **<u>or</u>** neglect". Felly, mae gwahaniaeth ystyr rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae drafftio darpariaethau eraill yn y testun Saesneg megis paragraff 45(c) yn awgrymu mai'r testun Cymraeg sy'n gywir.

9. Ym mharagraffau 81, 85 ac yn Atodiad 2, cyfieithwyd y term "well-being" fel "lles" yn y testun Cymraeg. Fodd bynnag, "llesiant" yw'r gair a ddefnyddir i gyfieithu "well-being" yn nhestun Cymraeg Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mewn lleoedd eraill yn y Cod hwn. Felly, mae'n anghyson â therminoleg y Ddeddf a gweddill y Cod. At hynny, mae hefyd yn gallu drysu darllenydd y testun Cymraeg gan fod "lles" wedi'i ddefnyddio i gyfieithu "welfare" mewn lleoedd eraill yn y Cod hwn megis y cofnodion yn Atodiad 1 o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 1984 a Deddf Plant 1989, ac yn Atodiad 2 yn y cofnod ar gyfer "Lles".

10. Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf o dan "Deddfiad", nodir darpariaethau penodol o'r deddfiad neu defnyddir yr ymadrodd "Y Ddeddf gyfan". Fodd bynnag, yn y cofnodion ar gyfer "Deddf Mabwysiadu 1976" a "Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002" ni nodir unrhyw adrannau penodol ac ni ddefnyddir yr ymadrodd "Y Ddeddf gyfan", felly nid yw'n glir a geir y swyddogaethau yn y Deddfau cyfan hynny neu mewn unrhyw ddarpariaethau penodol ynddynt.

11. Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf neu'r ail golofn, defnyddir yr ymadrodd "y Ddeddf" (neu amrywiad ar hynny) yn y cofnodion ar gyfer "Deddf Plant 1989", "Deddf Addysg 1996" a "Deddf Galluedd Meddyliol 2005" i gyfeirio yn ôl pob tebyg at y Deddfau penodol hynny. Fodd bynnag, diffiniwyd y term "y Ddeddf" yn flaenorol i olygu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ym mharagraff 1 o'r Cod hwn. Felly, gallai defnyddio'r ymadrodd "y Ddeddf" beri dryswch yn y cofnodion hyn yn Atodiad 1 gan ei fod eisoes yn derm diffiniedig ar gyfer Deddf wahanol.

12. Yn Atodiad 1, yn y golofn gyntaf, ceir cofnod ar gyfer "**<u>Y</u>** Ddeddf **<u>hon</u>**" y mae'n ymddangos ei bod yn cyfeirio at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(Cymru) 2014. Fodd bynnag, diffiniwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 eisoes fel "**y** Ddeddf" ym mharagraff 1 o'r Cod hwn. Felly, dylid defnyddio'r term diffiniedig "**Y** Ddeddf" yng ngholofn gyntaf y cofnod yn hytrach nag "**Y** Ddeddf **hon**". At hynny, defnyddiwyd "y Ddeddf hon" hefyd yn ail golofn y cofnod ar gyfer "Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984" wrth gyfeirio yn ôl pob tebyg at y Ddeddf honno yn hytrach nag at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ychwanegu at y dryswch.

13. Yn Atodiad 1, yn yr ail golofn ar gyfer y cofnod "Deddf Iechyd Meddwl 1983", mae gwahaniaeth bach rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "approved mental health **professionals**" ond nid oes gair i gyfateb i "professionals" yn y testun Cymraeg.

14. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "*Mae'r Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Cod Rhan 8") a ddyroddwyd o dan Ran 8, adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn nodi'r gofynion amrywiol ar gyfer yr adroddiad blynyddol.*" Gall hyn beri dryswch i'r darllenydd gan fod adran 145 o Ddeddf 2014 yn nodi'r pŵer i ddyroddi codau ac mai adran 144A o Ddeddf 2014 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Ionawr 2024**

# SL(6)425 - Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

‘Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor’ (“CTRS”) yw'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel er mwyn iddynt allu talu eu treth gyngor.

Rheolir gweithrediad CTRS yng Nghymru gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Rheoliadau CTRS 2013").

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i uwchraddio ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo hawl ceisydd i ostyngiad o dan CTRS.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 5 Rhagfyr 2023 gan y Gweinidog Cllid a Llywodraeth Leol, dywedodd Rebecca Evans AS y bydd hyn yn:

> *"sicrhau y bydd y cynllun a fydd ar waith ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn cadw hawliau ar gyfer bron i 261,000 o aelwydydd incwm isel ledled Cymru sy'n dibynnu ar y cymorth hwn."*

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i sicrhau:

- nad effeithir yn negyddol ar unrhyw geisydd sy'n byw yng Nghymru oherwydd ei fod wedi cael ôl-daliad rhiant gweddw neu daliad cymorth profedigaeth yn ôl-weithredol;
- bod ceiswyr yng Nghymru yn cael eu trin yn yr un modd ar gyfer unrhyw daliad digollediad neu daliad cymorth a wneir mewn cysylltiad â methiannau system Horizon Swyddfa'r Post;
- bydd taliadau digollediad sy'n ymwneud â'r cynllun Taliad Niwed Drwy Frechiad neu'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig hefyd yn cael eu diystyru wrth gyfrifo cyfalaf ceisydd o dan y cynllun.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliadau 3(a) a 12(a), disgrifir y diffiniadau newydd fel rhai sydd wedi'u mewnosod "yn y lleoedd priodol" yn narpariaethau dehongli'r ddwy set o Reoliadau. Fodd bynnag, mae'r dull hwn ond yn briodol os yw'n glir sut mae'r rhestrau o ddiffiniadau wedi'u trefnu yn nhestun y ddwy iaith (sydd fel arfer yn nhrefn yr wyddor). Yn nhestun Cymraeg y ddwy gyfres o Reoliadau, nid yw'r diffiniadau'n cael eu trefnu yn ôl yr wyddor Gymraeg fel sy'n digwydd fel arfer mewn Offeryn Statudol Cymraeg ond yn dilyn yr un drefn â'r rhestr o'r diffiniadau yn y testun Saesneg. Felly, efallai na fydd yn amlwg i'r darllenydd ble i fewnosod y diffiniadau newydd yn y testun Cymraeg y tro hwn, a byddai'n rhoi mwy o sicrwydd i nodi ar ôl pa gofnod y dylid mewnosod y diffiniadau newydd – gweler Drafftio Deddfau i Gymru, paragraff 7.17.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 8(d), mae'r geiriau agoriadol yn datgan bod y diwygiadau dilynol a rifwyd fel is-baragraffau (i) i (vii) yn cael eu gwneud i "yn yr ail golofn (swm) o'r Tabl **ym mharagraff 17**..." yn Atodlen 7. Fodd bynnag, ni wneir y diwygiadau terfynol yn is-baragraffau (vi) a (vii) i baragraff 17 ond i ffigurau a geir ym mharagraffau 23 a 24 o Atodlen 7. Felly, mae strwythur rheoliad 8(d) yn anghywir a dylai is-baragraffau (vi) a (vii) fod wedi'u rhifo fel paragraffau (e) ac (f) fel y gwneir mewn darpariaeth debyg a geir yn ddiweddarach yn rheoliad 16(d) i (f) o'r Rheoliadau hyn.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 13(c)(i), yn y testun Saesneg, dylai'r disgrifiad o'r diwygiad ddatgan "yn y testun Saesneg" oherwydd mai dim ond i destun Saesneg paragraff (b) yn is-baragraff (9) o baragraff 28 o'r cynllun diofyn y gwneir y diwygiad hwn. Mae'r cyfieithiad Cymraeg eisoes yn cynnwys y geiriau hynny yn rheoliad 13(c)(i) oherwydd nad oes unrhyw gysylltiad cyfatebol i'w hepgor ar ddiwedd paragraff (b) yn is-baragraff (9) o baragraff 28 yn nhestun Cymraeg y cynllun diofyn. Felly, nid yw'r drafftio yn dilyn y canllawiau a geir yn Drafftio Deddfau i Gymru, paragraff 7.9(2) wrth ddiwygio testun un iaith yn unig o ddeddfiad dwyieithog sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn golygu bod gwahaniaeth rhwng y disgrifiadau a roddir yn y testunau Saesneg a Chymraeg o reoliad 13(c)(i).

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024***

Pwynt Craffu Technegol 1: Nodir y pwynt. Ystyrir bod y mewnosodiadau yn y testun Cymraeg yn effeithiol yn gyfreithiol ac y gall y darllenydd ganfod ymhle y bydd y diffiniadau yn cael eu mewnosod.

Pwynt Craffu Technegol 2: Nodir y pwynt. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio fel y nodir isod cyn eu gwneud.

Pwynt Craffu Technegol 3: Nodir y pwynt. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio fel y nodir isod cyn eu gwneud.

*Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024** | **Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024** |
| Bydd rheoliadau 8(d)(vi) a (vii) yn cael eu hailrifo 8(e) ac (f) yn unol â hynny. | Bydd rheoliadau 8(d)(vi) a (vii) yn cael eu hailrifo 8(e) ac (f) yn unol â hynny. |
| | Bydd rheoliad 13(c)(i) yn cael ei ddiwygio i fewnosod, ar y dechrau, y geiriau "in the English language text,". |
| Bydd mân faterion fel fformatio, mân newidiadau i'r nodyn esboniadol a'r troednodiadau a chywiro gwallau teipograffyddol hefyd yn cael eu cywiro cyn gwneud y Rheoliadau. | |

# SL(6)424 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn nodi'r gofynion gwahanu yng Nghymru at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("EPA 1990"). Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i gyflwyno, casglu a thrin gwastraff mewn cysylltiad ag eiddo annomestig.

Mae adran 45AB(1) o EPA 1990 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi codau ymarfer at ddiben rhoi canllawiau ymarferol ynghylch sut i fodloni gofynion a osodir gan neu o dan adran 45AA.

Mae Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru ("y Cod") wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer hwn ac mae'n rhoi canllawiau ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yn Rheoliadau 2023.

## Y weithdrefn

Dim gweithdrefn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod y Cod gerbron y Senedd fel sy'n ofynnol gan adran 45AB(4)(b) o EPA 1990.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod.

**1.** Mae'n bosibl nad yw'r Cod yn rhoi canllawiau ymarferol digonol i feddianwyr eiddo annomestig i'w cynorthwyo i nodi gwastraff sydd wedi'i eithrio o'r gofynion gwahanu. Yn benodol:

- Mae paragraff 4.17 o'r Cod yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am y mathau o wastraff nad ydynt o fewn cwmpas y gofynion gwahanu, ond ceir gwybodaeth arall am y mathau hyn o wastraff ym mharagraffau 6.9 a 6.10, paragraffau 7.26 a 7.30 ac yn yr Eirfa. Gallai fod o ddefnydd mwy ymarferol i'r darllenydd pe bai'r wybodaeth hon wedi'i chyfuno'n un adran gynhwysfawr o'r Cod, yn hytrach na chael ei chyflwyno'n dameidiog.
- Mae darllenydd o'r Cod sy'n ceisio nodi a yw gwastraff wedi'i eithrio o'r gofynion gwahanu oherwydd ei fod yn beryglus yn cael ei gyfeirio at reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae rheoliad 6 yn darparu bod gwastraff yn beryglus os yw wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn "*y Rhestr*

*Wastraffoedd"*. Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2005 yn diffinio "*y Rhestr Wastraffoedd*" fel y "*rhestr o wastraffoedd a sefydlir gan 'Benderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC sy'n disodli Penderfyniad 94/3/EC sy'n sefydlu rhestr wastraffoedd yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC sy'n sefydlu rhestr o wastraffoedd peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd"*. Gall fod yn heriol i'r darllenydd ddod o hyd i'r Penderfyniadau/Cyfarwyddebau perthnasol, ac felly dod o hyd i'r Rhestr Wastraffoedd, er mwyn nodi a ddylid eithrio eitem benodol o wastraff o'r ffrydiau gwastraff sydd wedi'u gwahanu. Ym mharagraff 6.8, ceir linc i ganllawiau ar ddosbarthu gwastraff, ond mae'r dudalen we gov.uk yn awgrymu bod angen i'r darllenydd fod yn gymwys mewn gwastraff peryglus a bod â rhywfaint o wybodaeth am gemeg er mwyn defnyddio'r canllawiau hynny'n llawn.

- Mae paragraff 6.9 o'r Cod yn diffinio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 fel "*Rheoliadau 2014"*. Mae paragraff 7.30 yn cyfeirio at "*gofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid*", yn hytrach na defnyddio'r term diffiniedig. Gall fod yn aneglur i'r darllenydd at ba ddeddfwriaeth y cyfeirir yma, gan fod paragraff 7.26 yn cyfeirio at Reoliad (EC) 1069/2009, sydd hefyd yn ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

- Mae anghysondeb rhwng y disgrifiad o sgil-gynhyrchion anifeiliaid ym mharagraff 6.10 a'r cofnod yn yr Eirfa ar gyfer "Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid", a allai beri dryswch i'r sawl sy'n darllen y Cod. Mae paragraff 6.10 yn darparu bod Rheoliadau 2014 yn cynnwys "*cig, pysgod, llaeth ac wyau hefyd* ***<u>pan nad ydynt</u>*** *wedi'u bwriadu i gael eu bwyta gan bobl*", ond mae'r cofnod yn yr Eirfa yn nodi bod sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynnwys "*cig, pysgod, llaeth ac wyau,* ***<u>yn aml lle nad oes</u>*** *bwriad i bobl eu bwyta"* (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**2.** Mae anghywirdeb ym mharagraff 7.31 o'r Cod, sy'n nodi bod Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 yn darparu na ddylai meddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru waredu gwastraff bwyd i'r garthffos gyhoeddus. Fodd bynnag, nodir y gwaharddiad a'r drosedd gysylltiedig yn adran 34D o EPA 1990. Mae Gorchymyn 2023 yn sefydlu'r gyfundrefn sancsiynau sifil am drosedd o dan adran 34D(3) o EPA 1990.

**3.** Nodwn yr anghysondebau a ganlyn rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Cod.

  - Mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio sawl gwaith at ddyletswyddau a gofynion sy'n gymwys ("applying") i bersonau penodedig. Nodir yn y fersiwn Gymraeg fod y dyletswyddau a'r gofynion yn "berthnasol", sydd i ni yn golygu "relevant" yn Saesneg. Ymddengys i ni fod y defnydd o "applying" yn Saesneg yn gywir, ac y byddai'n fwy priodol defnyddio "cymwys" yn Gymraeg.

- Ym mharagraff 5.10, mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at y senario "Bus, coach, train stations", yr ydym yn deall ei fod yn golygu gorsafoedd bysiau, gorsafoedd bysiau moethus a gorsafoedd trenau. Mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at y senario "Bws, bws moethus, gorsafoedd trên". Credwn y dylai'r fersiwn Gymraeg ddarllen "Gorsafoedd bysiau, bysiau moethus a threnau".
- Ym mharagraff 8.2, mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at "articles" ond mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at "nwyddau". Credwn y byddai "eitemau" yn gliriach er mwyn cyfateb i "articles" (defnyddir "eitemau" ym mharagraff 8.11).
- Ym mharagraff 8.21, ceir brawddeg ychwanegol ar ddechrau'r fersiwn Gymraeg nad yw'n ymddangos yn y fersiwn Saesneg. Ymddengys mai'r fersiwn Gymraeg sy'n gywir.
- Yn y fersiwn Gymraeg o'r Eirfa, mae rhan o'r diffiniad o "Llygryddion Organig Parhaus (POPs)" wedi gwneud ei ffordd i mewn i'r diffiniad o "Gwastraff masnachol". Hefyd, nid oes diffiniad o "Is-ffracsiwn" yn y fersiwn Gymraeg.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Casglu Deunyddiau Gwastraff Ar Wahân i'w Hailgylchu – Cod Ymarfer Cymru***

**Pwynt Craffu 1.1:**

Wrth ddrafftio'r Cod, ystyriwyd sut y gallai gael ei ddefnyddio gan bobl yn ymarferol. Cydnabyddir y bydd yna bobl na fydd yn darllen y Cod yn ei gyfanrwydd, gan mai dim ond rhan benodol o'r Cod allai fod yn berthnasol iddynt. Er mwyn cynyddu hygyrchedd y Cod, ystyrir y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am fathau o wastraff mewn gwahanol adrannau o'r Cod, pan fo'r wybodaeth yn berthnasol, yn hytrach na chyfuno hyn i un rhan gynhwysfawr o'r Cod. Nodir sylwadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC), ond nid ydym yn ystyried bod angen newid.

**Pwynt Craffu 1.2:**

Mae'r diffiniad o 'gwastraff peryglus' o dan y drefn wastraff peryglus yn gymhleth, ond nid ydym yn credu ei bod yn bosibl – at ddibenion y Cod - ei grynhoi na'i symleiddio heb y risg o'i symleiddio hyd nes bod risg o fod yn anghywir. Ni fydd y rhan fwyaf o'r gwastraff a gynhyrchir gan yr eiddo a gwmpesir gan Reoliadau 2023 yn beryglus, a dylai'r meddianwyr hynny sy'n trin neu'n cynhyrchu gwastraff peryglus yn rheolaidd fod yn gyfarwydd â'r drefn wastraff peryglus. Nodir sylwadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC), ond nid ydym yn ystyried bod angen newid.

**Pwynt Craffu 1.3**

Rydym yn cytuno y dylai'r cyfeiriadau ym mharagraffau 6.9 a 7.30 adlewyrchu'i gilydd, felly bydd y paragraffau hyn yn cael eu diwygio i gyfeirio at Reoliadau 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009. Wrth ystyried hyn, gwneir diwygiadau hefyd i'r cyfeiriadau at Reoliadau 2014 ym mharagraff 6.10. Mewn perthynas â pharagraff 7.26, bwriedir i'r cyfeiriad hwn fod mewn perthynas â Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 yn unig, gan fod hyn yn adlewyrchu Rheoliadau 2023 felly ni wneir unrhyw newid."

**Pwynt Craffu 1.4:**

Rydym yn cytuno y dylai'r cyfeiriadau adlewyrchu ei gilydd. Bydd y cyfeiriad yn yr eirfa yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r testun ym mhrif gorff y Cod: "*cig, pysgod, llaeth ac wyau **<u>pan nad ydynt wedi'u bwriadu</u>** i gael eu bwyta gan bobl".*

**Pwynt Craffu 2:**

Rydym yn derbyn bod y cyfeiriad deddfwriaethol yn anghywir. Bydd y testun ym mharagraff 7.31 o'r Cod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu bod y gwaharddiad a'r drosedd gysylltiedig wedi'u nodi yn adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Pwynt Craffu 3.1:**

Rydym yn cytuno ag arsylwadau'r LJCC a byddwn yn diwygio'r geiriad perthnasol fel yr awgrymir.

**Pwynt Craffu 3.2**

Rydym yn cytuno ag arsylwadau'r LJCC a byddwn yn diwygio'r geiriad perthnasol fel yr awgrymir.

**Pwynt Craffu 3.3**

Rydym yn cytuno ag arsylwadau'r LJCC a byddwn yn diwygio'r geiriad perthnasol fel yr awgrymir.

**Pwynt Craffu 3.4**

Rydym yn nodi sylwadau'r LJCC ac yn cadarnhau bod y frawddeg hon wedi'i hepgor mewn camgymeriad. Bydd y frawddeg goll yn cael ei mewnosod yn nhestun Saesneg y Cod.

**Pwynt Craffu 3.5**

Rydym yn nodi sylwadau'r LJCC ac yn cadarnhau mai camgymeriad yw hyn. Bydd y Cod yn cael ei ddiweddaru i gywiro hyn.

**Newidiadau ychwanegol**

Yn ogystal â'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r adroddiad, bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi bod adolygiad ychwanegol hefyd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r cyfieithiad o 'unsold'. Mae hyn wedi'i gyfieithu fel 'heb ei werthu' neu 'heb eu gwerthu' yn y Cod. Yn Rheoliadau 2023, cyfieithir 'unsold' fel 'nas gwerthwyd'. Bydd y 22 cyfeiriad at 'heb ei werthu'/'heb eu gwerthu' yn y testun Cymraeg yn cael eu diweddaru i 'nas gwerthwyd' er mwyn cyd-fynd â Rheoliadau 2023.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Ionawr 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 25 Ionawr yng Nghaeredin, er ein bod yn aros am gytundeb terfynol ar y trefniadau.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau economaidd a chyllidol. Byddaf yn rhoi diweddariad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, ac yn amlinellu'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi eu gwneud i sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Byddaf hefyd yn pwyso ar Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i ddarparu eglurder o ran y newidiadau y gallwn eu disgwyl i'n setliad cyllidebol ar gyfer 2023-24 yn Amcangyfrifon Atodol y DU ym mis Chwefror, gan gynnwys cadarnhad o ran a fyddwn yn derbyn cyllid canlyniadol o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn Lloegr.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n debygol mai hwn fydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid olaf cyn Cyllideb y Gwanwyn y DU. Byddaf yn cyflwyno'r achos o blaid buddsoddi ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â pharhau i bwyso am gymorth gan Lywodraeth y DU i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, bydd trafodaeth ar baratoadau Llywodraeth y DU ar gyfer Adolygiad o Wariant nesaf y DU. Byddaf yn ceisio sicrwydd y bydd fy swyddogion yn cymryd rhan yn y gwaith hwn a fydd yn dod i ben yn yr hydref.

Bydd y cyfarfod hefyd yn canolbwyntio ar drechu tlodi. Dyma gyfle i drafod y camau economaidd a chyllidol sy'n cael eu cymryd ar draws y gwledydd, yn ogystal ag ystyried ffyrdd o gydweithio.

Byddaf yn cyfarfod ar wahân â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i drafod pwysau gwariant sy'n benodol i Gymru a'r rhagolygon economaidd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 8.2

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

15 Ionawr 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Trafnidiaeth**

Yn dilyn fy llythyr ar 6 Medi cyn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Trafnidiaeth ar 13 Medi, mae cyd-hysbysiad bellach wedi'i gyhoeddi yn crynhoi'r trafodaethau ar fandad cerbydau Sero-allyriadau, diwygio'r rheilffyrdd a lefelau gwasanaeth gofynnol ar gyfer rheilffyrdd yn y cyfarfod. Fe'i cyhoeddwyd yn: Hysbysiad gan y Grwp Rhyngweinidogol ar gyfer Materion Trafnidiaeth: 13 Medi 2023 - GOV.UK (www.gov.uk).

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Eitem 8.3

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/16/2024
Ein cyf/Our ref DC/CG/00007/24

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

17 fed Ionawr 2024

Annwyl Huw,

Rwy’n ysgrifennu yn unol â’r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i’ch hysbysu y byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod o’r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru ar 23 Ionawr 2024. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ran Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Llywodraethau'r Alban a'r DU. Mae trafodaeth bellach yn debygol o ganolbwyntio ar bleidleisio absennol ar-lein, a rheoli gwahaniaeth a lliniaru risgiau.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithiol ac, ar yr achlysur hwn, yn cael ei gadeirio gan George Adam MSP, y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Llywodraeth yr Alban. Y mynychwyr eraill fydd Steve Baker MP, y Gweinidog Gwladol, Swyddfa Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU and Simon Hoare MP, Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau

Ysgrifennaf atoch eto ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 9.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/12/2024
Ein cyf/Our ref CG/PO/12/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

12 fed Ionawr 2024

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 2022/23**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2023 ac am ddwyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'm sylw.

O ran paragraff 62 i 64 o'ch adroddiad, gallaf gadarnhau bod gwefan benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer cytundebau rhynglywodraethol domestig terfynol yn cael ei hadolygu'n barhaus. Cafodd ei diweddaru ddiwethaf ar 5 fed Mehefin 2023 adeg cyhoeddi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Gweinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r broses ar gyfer cytuno ar y dyddiad cychwyn ar gyfer cymalau 1 a 3 o'r Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus (y Ddeddf bellach), ac mae hyn yn mynd i'r afael yn rhannol â pharagraffau 63 a 64 o'r adroddiad blynyddol.

Mewn perthynas â'r ddau gytundeb arall y cyfeirir atynt yn y paragraffau hynny o'r adroddiad:

- Mae'r negodiadau ynghylch y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Bil Esgyll Siarcod (y Ddeddf bellach) yn parhau.
- Ni fydd Llywodraeth Cymru yn awr yn rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato mewn perthynas â'r Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) (y Ddeddf bellach). Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yn Lloegr a'r Ombwdsmon Tai, eto yn Lloegr, yw hwn.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn egluro'r sefyllfa ddiweddaraf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Mick

Adroddiad Blynyddol 2022/23 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at Adroddiad Blynyddol 2022/23 y Pwyllgor sydd bellach wedi'i gyhoeddi.

Mae paragraffau 62 i 64, sy'n ymwneud â chytundebau rhynglywodraethol, yn nodi ei bod yn ymddangos nad yw'r dudalen we berthnasol wedi cael ei diweddaru – ymrwymiad a roddwyd yn eich llythyr ar 5 Medi 2022.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a fydd y dudalen hon yn cael ei hadolygu a'i diweddaru.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 9.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Adroddiad Terfynol** |
| **DYDDIAD** | **18 Ionawr 2024** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Prif Weinidog** |

Cafodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ei sefydlu gennym ychydig dros ddwy flynedd yn ôl. Fe'i sefydlwyd i ystyried a datblygu'r opsiynau ar gyfer diwygio strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau i fod yn rhan annatod ohoni, yn sylfaenol. Rhoddwyd i'r Comisiwn y dasg hefyd o ystyried a datblygu pob opsiwn blaengar posibl ar gyfer cryfhau democratiaeth yng Nghymru a chyflawni gwelliannau ar ran pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan yr Athro Laura McAllister a'r Dr Rowan Williams, yn un o ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Heddiw, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol. Mae ar gael i'w weld yma: Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol

Mae hon yn foment bwysig yn nhaith gyfansoddiadol Cymru. Hoffwn ddiolch i'r cyd-gadeiryddion ac aelodau'r Comisiwn am eu holl waith, sydd wedi arwain at lunio'r adroddiad cynhwysfawr hwn. Hoffwn ddiolch hefyd i bawb sydd wedi cefnogi gwaith y Comisiwn a chymryd rhan, gan gynnwys aelodau'r panel arbenigol, a'r bobl a'r sefydliadau niferus a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae adroddiad terfynol y Comisiwn yn teilyngu ystyriaeth fanwl a gofalus. Byddaf yn gwneud datganiad llafar i'r Senedd ar 30 Ionawr ac, wedi inni gael amser i ystyried ein hymateb, byddwn yn cyflwyno dadl gan y llywodraeth yn y Senedd.